YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU



# Arweinydd Rhaglen (Cymru)

CARERS TRUST

# Arweinydd Rhaglen (Cymru)

## Polisi a Materion Cyhoeddus

**Contract:** Contract parhaol, amser llawn
**Oriau:** 35 awr yr wythnos, dydd Llun–dydd Gwener, 9am–5pm neu 28 awr yr wythnos (opsiwn rhan-amser). Rydym yn agored i ddewisiadau gweithio hyblyg.
**Cyflog:** £44,000–£46,000
**Lleoliad:** Wedi'i seilio yn swyddfa Ymddiriedolaeth Gofalwyr yng Nghaerdydd 1–2 ddiwrnod yr wythnos. Hyblygrwydd i weithio o swyddfeydd eraill Ymddiriedolaeth Gofalwyr ledled y DU. Bydd y rôl hon yn gofyn am deithio achlysurol ar draws Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

## Pam mae'r rôl hon yn allweddol i Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Mae Arweinydd y Rhaglen ar gyfer Cymru yn rôl allweddol o fewn Tîm Cymru, gan helpu i yrru strategaeth Ymddiriedolaeth Gofalwyr i wella cefnogaeth i dros bum miliwn o ofalwyr di-dâl ledled y DU. Byddwch yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglenni effaith uchel sy'n cryfhau sefydliadau gofalwyr lleol ac yn trawsnewid cefnogaeth i ofalwyr di-dâl ledled Cymru.

Rydym yn chwilio am arbenigwr rhaglen angerddol sydd â phrofiad o ddatblygu rhaglenni, cynhyrchu incwm ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws Ymddiriedolaeth Gofalwyr, byddwch yn adeiladu partneriaethau cryf, yn creu modelau rhaglenni y gellir eu hehangu, ac yn cyfrannu at ddiwylliant mwy entrepreneuraidd.

Byddwch yn rhwydweithiwr hyderus, yn gallu tyfu a rheoli arfaeth o gyfleoedd tra'n sicrhau darpariaeth uchelgeisiol o raglenni presennol. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hanes profedig o ddylunio a chyflwyno rhaglenni cynaliadwy, effeithiol sy'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fuddiolwyr.

## Yn y rôl hon byddwch yn

- Gweithio gyda'r timau Gweithredol ac Arweinyddiaeth i droi blaenoriaethau strategol yn raglenni, cynhyrchion a gwasanaethau effeithiol y gellir eu hariannu.

- Arwain ar gynllunio a darparu gweithgareddau cymhleth gan gynnwys nifer o brosiectau sy'n nodi a gweithredu ar gyfleoedd i wella'r broses weithredu.

- Bod yn lysgennad ar ran Ymddiriedolaeth Gofalwyr a chyfrannu at broffil cyhoeddus yr elusen, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws ein rhwydwaith o randdeiliaid.

CARERS TRUST

# Ein hymgeisydd delfrydol

*Os ydych yn bodloni'r mwyafrif (ond nid pob un) o'r meini prawf isod, rydym yn dal i'ch annog i wneud cais.*

**Profiad**

- Arwain datblygiad rhaglenni arfaethedig sy'n canolbwyntio ar effaith.
- Gweithio o fewn strwythurau ledled y DU, gan wneud y mwyaf o ddull traws-swyddogaethol o ran datblygu a chyflwyno rhaglenni.
- Monitro a gwerthuso rhaglenni gyda ffocws cryf ar ddangos effaith a chreu cyfleoedd ar gyfer dysgu a thwf.
- Rheoli perthnasoedd lefel uchel a chreu partneriaethau newydd.
- Arwain a rheoli timau perfformiad uchel.
- Profiad o weithio gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac ymrwymiad iddynt, wedi'i ddangos drwy ddatblygu a chyflwyno rhaglenni sy'n diwallu anghenion gwlad ddwyieithog.

**Sgiliau, galluoedd ac arddull bersonol**

- Ymagwedd gynhwysol, greadigol a strategol at ddatblygu a darparu rhaglenni.
- Arloesol ac yn canolbwyntio ar gyfleoedd, gan feithrin partneriaethau, rhaglenni a chynhyrchion newydd.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol.
- Rhwydweithiwr hyderus gyda'r gallu i ysbrydoli a chymell cynulleidfaoedd lefel uwch, yn fewnol ac yn allanol.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau, gyda'r gallu i flaenoriaethu'n effeithiol.
- Yn fedrus gyda meddalwedd TG a MS Office, gan gynnwys: Excel, PowerPoint, ac ati.

**Gwybodaeth a dealltwriaeth**

- Cefnogaeth gref i bwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd Ymddiriedolaeth Gofalwyr.
- Dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar ofalwyr a sefydliadau gofalwyr lleol yng Nghymru.
- Y gallu i dynnu ar rwydweithiau cryf ar draws y sectorau preifat, statudol a'r trydydd sector yng Nghymru i gefnogi gwaith partneriaeth.
- Gwybodaeth am wrth-hiliaeth ac ymrwymiad iddi, yn ogystal ag at hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant.

CARERS TRUST

# Prif gyfrifoldebau (nid rhestr gynhwysfawr yw hon)

**Datblygu Rhaglenni**

- Defnyddio tystiolaeth o fewn ac y tu hwnt i Ymddiriedolaeth Gofalwyr i ddatblygu strategaethau rhaglenni cynaliadwy ac o effaith uchel sy’n creu newid ystyrlon a pharhaol i ofalwyr di-dâl a sefydliadau gofalwyr lleol yng Nghymru.
- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i gryfhau cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd ein rhaglenni yng Nghymru, gan sicrhau’r elw mwyaf ar fuddsoddiad.
- Cynhyrchu manylebau rhaglenni a thystiolaeth sy’n adeiladu achos perswadiol dros gefnogi gofalwyr o bob oed ac yn denu partneriaethau traws-sector.
- Gyrru rhaglenni o’r syniad cychwynnol i’r cyfnod cyflwyno o fewn cylch rhaglen y DU, gyda ffocws ar effaith, cyrhaeddiad ac incwm cynaliadwy.
- Gweithio fel rhan o dîm traws-sefydliadol sy’n canolbwyntio ar greu mewnwelediadau ac ar edrych i'r dyfodol, hyd at greu cynhyrchion sylfaenol hyfyw ac ehangu os ydynt yn llwyddiannus.

**Cyflwyno Rhaglenni**

- Arwain darpariaeth llwyddiannus rhaglenni cenedlaethol drwy ddefnyddio prosesau rheoli prosiect cadarn a rheolaeth a datblygiad tîm bach o arbenigwyr.
- Sicrhau bod amodau’r cytundebau a’r contractau cyllido, yn ogystal â’r rheoliadau a’r canllawiau perthnasol, yn cael eu bodloni i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Monitro perfformiad prosiectau’n weithredol, o fewn ein fframwaith effaith gymdeithasol yn y DU, gan sicrhau bod pob rhaglen yn cyrraedd y targedau perfformiad cytûn gwneir y mwyaf o gyfleoedd dysgu a chasglu tystiolaeth ac fe'u rhennir yn fewnol ac yn allanol.
- Gweithio gyda Chyfarwyddwr Cymru i sicrhau cyllideb prosiect sydd wedi’i rheoli’n dda a chynnal cofrestrau risg rhaglenni yn unol â gweithdrefnau Ymddiriedolaeth Gofalwyr a gofynion y cyllidwyr.
- Cyflwyno rhaglenni o fewn y gyllideb, gan wneud defnydd priodol o’r arian i sicrhau’r effaith fwyaf posibl i ofalwyr di-dâl a sefydliadau gofalwyr lleol.

CARERS TRUST

# Prif gyfrifoldebau
# (nid rhestr gynhwysfawr yw hon)

**Partneriaethau a rheoli rhanddeiliaid**

- Rheoli perthnasoedd allweddol â rhanddeiliaid allanol, gan ddatblygu partneriaethau dibynadwy sy'n canolbwyntio ar wneud y mwyaf o gyrhaeddiad ac effaith y rhaglenni.
- Gweithio gyda thîm codi arian y DU i sicrhau cefnogaeth ariannol gan ystod amrywiol o ffynonellau, gan gynnwys partneriaethau yn y sector corfforaethol.

**Cyffredinol**

- Chwarae rôl flaenllaw a chadarnhaol fel arweinydd o fewn tîm Cymru.
- Cymryd cyfrifoldeb am reoli risg enw da sy'n gysylltiedig â phartneriaethau proffil uchel, gan gynnwys gwiriadau diwydrwydd dyladwy, moesegol ac YPR.
- Bod yn ymrwymedig i ddiogelu ac i hyrwyddo lles oedolion a phlant agored i niwed.

# Sut i wneud cais

Mae ceisiadau i'w cyflwyno trwy borth recriwtio Ymddiriedolaeth Gofalwyr, uwchlwythwch eich CV a datganiad ategol yn nodi sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer y rôl hon.
Rydym yn hapus i wneud unhryw addasiadau sydd eu hangen arnoch chi a byddwn yn rhannu pob cwestiwn cyfweliad ymlaen llaw fel rhan o'n hymrwymiad i recriwtio cynhwysol.

Am sgwrs anffurfiol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl cysylltwch â recruitment@carers.org

- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** Dydd Llun 23 Mawrth 09:00

- **Dyddiadau cyfweliad disgwyliedig:** Dydd Llun 30 Mawrth (wyneb yn wyneb)


YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU
FAIR FUTURES FOR YOUNG CARERS
"YOU MAY WANT US TO FOCUS ON EDUCATION AND OUR FUTURE – BUT WE HAVE TO PUT THAT SECOND."